# Tuag at Wytnwch Morol yng Nghymru

Yn dilyn pandemig Covid, daeth rhanddeiliaid morol a physgodfeydd, sef Grŵp Cynghori a Gweithredu Cymru ar Faterion Morol ynghyd i ystyried y ffordd orau o gefnogi camau datblygu cynaliadwy i helpu cymunedau arfordirol i adfer, ac i gyflawni ein gweledigaeth o foroedd Cymru sy'n lân, yn iach, yn ddiogel, yn gynhyrchiol ac yn fiolegol amrywiol.

**Mae ein harfordiroedd a'n moroedd yn cyfrannu'n sylweddol at ein bywydau a'n lles.** Mae Parth Morol Cymru yn dyblu maint Cymru. Gan ein bod yn genedl arfordirol, mae ein harfordiroedd, ein moroedd a'n treftadaeth pysgota yn rhan hanfodol o'n diwylliant a'n hiaith. Yn y bôn, mae ein moroedd yn fannau anhygoel, yn gartref i amrywiaeth o gynefinoedd hynod ddiddorol a chreaduriaid môr bendigedig. Mae adnoddau naturiol ac ecosystemau'r môr yn darparu bioamrywiaeth, ynni adnewyddadwy, protein iach, storio carbon, deunydd adeiladu, ac yn cefnogi pysgota a dyframaethu, twristiaeth, hamdden ac ysbrydoliaeth ddiwylliannol yn ogystal â manteision iechyd a chysylltedd byd-eang.

**Mae ecosystemau morol gwydn, sy’n cael eu cynnal gan gynefinoedd a rhywogaethau ffyniannus, yn hanfodol i natur ac adferiad economaidd-gymdeithasol.** Mae'r manteision gwell y byddem yn eu gweld o gynefinoedd sydd wedi'u hadfer a'u hadennill yn cynnwys cynhyrchu mwy o bysgod a physgod cregyn, gwell amddiffyniad arfordirol, rhagor o gyfleoedd i fusnesau cynaliadwy, a mwy o gapasiti ar gyfer addasu i newid yn yr hinsawdd.

**Mae'r ecosystemau hyn a'r buddion y mae nhw'n eu rhoi dan bwysau oherwydd ein defnydd cynyddol o adnoddau naturiol, llygredd a newid yn yr hinsawdd.** Hefyd, ni allwn wadu'r angen i symud i ffwrdd o losgi tanwydd ffosil ar gyfer ynni a thuag at fathau adnewyddadwy o ynni y gellir ei gynhyrchu’n helaeth o'n moroedd. Mae'n hanfodol bod y ffordd yr ydym yn rheoli ein hadnoddau naturiol yng Nghymru yn parchu'r argyfyngau hinsawdd a natur, gan gydbwyso'r cyfleoedd â'r effeithiau ar fioamrywiaeth a chymunedau.

**Yng Nghymru, mae gennym lawer o ddulliau gweithredu presennol, pobl a phrosiectau** sy'n ceisio cefnogi ecosystemau morol a'r buddion a gawn ganddynt. Fodd bynnag, mae angen i ni wneud mwy, ac mae angen i ni ei wneud yn gyflymach, gan ddefnyddio ein hadnoddau yn effeithiol. Mae tri maes gwaith wedi'u nodi i gyflymu a galluogi gweithredu dros ein hamgylchedd, economi, lles cymdeithasol a diwylliannol:

- **Deall Cefnforoedd** – meithrin dealltwriaeth o'r ffordd y mae pobl, cymunedau a busnesau ledled Cymru yn cysylltu ag arfordiroedd a moroedd Cymru, effaith ein gweithredoedd cyfunol ac unigol ar iechyd y cefnforoedd a sut mae iechyd y cefnforoedd yn effeithio ar ein bywydau bob dydd, gan arwain at welliannau o ran sut rydym yn rheoli a defnyddio ein harfordiroedd a'n moroedd;
- **Buddsoddi Cynaliadwy** – sicrhau mathau arloesol a thymor hwy o gyllid cyhoeddus, preifat a chyfun yn helpu i gyflawni amcanion allweddol, adfer Ardaloedd Morol Gwarchodedig a thrawsnewid systemau economaidd-gymdeithasol;
- **Capasiti adeiladu** – galluogi cydweithio a chyd-gynhyrchu i annog gweithredu wedi'i gydlynu, yn lleol o fewn ein cymunedau yn genedlaethol ac yn drawsffiniol, i ymateb i anghenion ac amodau sy'n newid wrth i'r pwysau ar ein harfordiroedd a'n moroedd gynyddu.

**Dros y tair blynedd nesaf,** bydd Partneriaeth Moroedd ac Arfordiroedd Cymru, o dan yr enw newydd, yn cydweithio a’n rhanddeiliaid a’n cymunedau i nodi a chyflawni'r tair thema hyn drwy raglen waith, fel sail i'n gweledigaeth a'n huchelgeisiau ar gyfer arfordiroedd a moroedd gwydn.

## Mae aelodau PMaA Cymru yn cynnwys:

**Bydd logos pellach yn cael eu hychwanegu pan fyddant ar gael.**

© Crown copyright 2022 Welsh Government, WG46521
Mae’r ddogfen hon ar gael yn Gymraeg hefyd / This document is also available in Welsh
Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg / We welcome correspondence and telephone calls in Welsh